

Anfonwyd at:

Gynrychiolwyr darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol;

Trysoryddion, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaethau Oedolion, Awdurdodau Lleol Cymru.

(Anfonwyd 28.04.20)

Annwyl Gyfaill

Yn dilyn fy e-bost isod, gofynnwyd i mi egluro beth a olygir gan yr enghraifft olaf a ddyfynnir yma, sy'n dangos ble y gallai'r cyllid hwn ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion gael ei ddefnyddio. Mae hyn yn ymwneud â'r enghraifft olaf yn y pwyntiau bwled o dan y teitl "Enghreifftiau o ble y gellid ei ddefnyddio".

Mae'r enghraifft honno yn cyfeirio at sefyllfa lle mae costau ychwanegol, gan gynnwys costau comisiynu dwbl, yn codi gan fod marwolaeth neu farwolaethau wedi digwydd mewn cartref gofal o ganlyniad i COVID-19, gan felly adael lle gwag yn y cartref. Felly, yn yr achos hwn, gellid defnyddio cyllid i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r lle gwag hwnnw, neu i gomisiynu lle mewn cartref arall, pan nad oes modd cael lle yn y cartref cyntaf. Byddai hyn yn para am y cyfnod hyd nes y byddai modd i'r darparwr hwnnw ddychwelyd at ei lefel weithredu arferol.

Gobeithio bod hyn yn egluro'r enghraifft hon.

Yn gywir

Matt Jenkins

Deputy Director (Partnership and Cooperation) | Dirprwy Gyfarwyddwr (Partneriaeth a Chydweithrediad)

Social Services and Integration Directorate | Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Welsh Government – Health and Social Service Group | Llywodraeth Cymru – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Tel / Ffôn: 03000 251618

(Anfonwyd 27.04.20)

Annwyl Gyfaill

Diben

Mae'r e-bost hwn yn cadarnhau manylion y cyllid y mae Gweinidogion yn ei gynnig i helpu i gwrdd â'r costau ychwanegol y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn eu hysgwyl o ganlyniad i COVID-19. Caiff yr e-bost ei anfon at ddarparwyr Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Trysoryddion, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaethau Oedolion mewn Awdurdodau Lleol, ac i gynrychiolwyr CLILC a'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol.

Y cyllid sy'n cael ei ddarparu

Mae Gweinidogion yn darparu cymorth cychwynnol gwerth £40 miliwn i helpu awdurdodau lleol i gwrdd â'r costau ychwanegol sy'n deillio o COVID-19, y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn eu hwynebu. Diben hyn yw galluogi awdurdodau lleol i gadw eu gofal mewnol a gofal a gomisiynir i oedolion, fel eu bod mewn sefyllfa i ymateb i unrhyw alw am y gofal hwnnw yn y dyfodol, a allai godi wrth i sefyllfa COVID-19 ddatblygu. Mae'r cyllid hwn wedi'i glustnodi at y diben hwn, a chaiff y defnydd a wneir ohono ei fonitro'n agos, gan fod Gweinidogion yn sylweddoli ei bod yn bosibl y bydd angen iddynt wneud dyraniadau pellach gan ddibynnu ar sut y bydd pandemig COVID-19 yn datblygu.

Er bod y dyraniad hwn yn ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion, mae'r sefyllfa o ran gofal plant hefyd yn cael ei monitro.

Defnyddio'r cyllid hwn

Mae cynrychiolwyr o'r sector ac awdurdodau lleol wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod costau gweithredu darparwyr gofal i oedolion, ar gyfer y sector annibynnol, y trydydd sector a darpariaeth fewnol awdurdodau lleol, wedi cynyddu mewn nifer o feysydd yn ystod cam cyntaf pandemig COVID-19. Gan mai awdurdodau lleol sy'n comisiynu mwyafrif y gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae'r dyraniad cyllid hwn ar gael i awdurdodau lleol, er mwyn iddynt allu ymateb i'r costau gweithredu ychwanegol hyn drwy eu gwaith yn comisiynu gofal cymdeithasol i oedolion ar ran y boblogaeth leol. Mae hyn yn cynnwys pob math o ofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys gofal preswyl, gofal cartref a llety gwarchod.

Enghreifftiau o ble y gellid ei ddefnyddio

Mae'n anodd rhagweld pob maes lle y gall costau gweithredu ychwanegol o'r fath godi o ganlyniad i COVID-19, a gall hyn amrywio rhwng gwahanol fathau o ddarparwyr gofal i oedolion, ac amgylchiadau lleol. Felly, nid yw'n bosibl darparu rhestr bendant o'r meysydd lle y gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid hwn i gwrdd â'r costau ychwanegol y mae darparwyr yn eu hwynebu. Fodd bynnag, egwyddor y ddarpariaeth hon yw galluogi awdurdodau lleol i helpu i gwrdd â'r costau gweithredu cynyddol rhesymol y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn eu hysgwyl o ganlyniad i COVID-19 yn unig, h.y. y costau hynny sy'n fwy na'u costau arferol o ddarparu gofal a chymorth wedi'u comisiynu.

Er mwyn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol a darparwyr gofal i oedolion wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â hyn, isod, mae cynrychiolwyr darparwyr ac awdurdodau lleol wedi rhoi enghreifftiau o feysydd lle y gall costau ychwanegol godi:

- costau staffio cynyddol - yn codi er enghraifft o gost / defnydd cynyddol o staff asiantaeth, neu newidiadau i batrymau gwaith staff, defnydd cynyddol o daliadau goramser (gallai hyn fod i dalu am lenwi swyddi sy'n wag gan fod gan aelodau o staff COVID-19, a bod yn rhaid iddynt hunanynysu) a / neu y gost gynyddol o staffio yn sgil newidiadau yn yr angen a / neu ddarpariaeth (helpu mwy o bobl sy'n ynysig yn hytrach nag mewn mannau cymunol)
- costau cynyddol yn sgil defnyddio mwy o ddulliau rheoli heintiau - yn codi, er enghraifft o wariant ychwanegol ar gynhyrchion glanhau ac amser staff, ffedogau, menig, hylif diheintio dwylo etc
- costau cynyddol mewn gofal preswyl yn sgil cynnydd mewn pris bwyd
- darpariaeth TGCh ychwanegol - yn codi, er enghraifft, lle y caiff TGCh ychwanegol ei ddarparu mewn lleoliadau gofal preswyl er mwyn cadw perthnasau mewn cysylltiad â phreswylwyr ac i alluogi staff nad ydynt ar y rheng flaen i weithio o bell
- colli incwm a chostau rhedeg dwbl sy'n codi gan fod marwolaeth neu farwolaethau wedi digwydd mewn cartref gofal o ganlyniad i COVID-19, am gyfnod hyd nes bod y darparwr yn gallu dychwelyd at ei lefel weithredu arferol.

Mae'r cyllid hwn ar gael i gefnogi awdurdodau lleol wrth ymateb i'r canllawiau comisiynu a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, CLILC, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cynghori awdurdodau lleol i barhau i gomisiynu gofal yn unol â'r cynllun er mwyn cynnal llif arian i ddarparwyr. Mae'r cam hwn a awgrymir yn rhan o'r ymdrech i sicrhau cynaliadwyedd parhaus gofal cymdeithasol drwy gyfnod argyfyngus COVID-19, a'r tu hwnt.

Darparu a monitro cyllid

Caiff y cyllid hwn ei ddarparu drwy gronfa galedi llywodraeth leol a sefydlwyd i gwrdd â'r costau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Gwneir hyn ar y sail mai hwn yw'r ddull y cytunwyd arno ar gyfer darparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu ymdopi â'r canlyniadau ariannol maent yn eu hwynebu yn sgil y pandemig. Mae'r dyraniad cychwynnol hwn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng sefydlu'r gronfa ym mis Mawrth hyd at ddiwedd mis Mai, pan caiff penderfyniad pellach ei wneud ar lefel y cyllid hwn. Ni chaiff y gronfa ei rhannu ar sail y cyntaf i'r felin.

Ni fydd awdurdodau lleol yn derbyn dyraniad unigol o gyllid. Yn hytrach, o fewn y ffiniau a nodir uchod, dylai awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr i lunio cynigion i gwrdd â chostau ychwanegol rhesymol sy'n codi o ganlyniad i COVID-19. Yna, dylent wneud cais i dynnu i lawr (yn yr un ffordd ag y caiff cyllid arall yn y gronfa galedi ei ddarparu h.y. cais misol drwy ddarparu gwybodaeth sylfaenol drwy daenlen gyffredin) o'r dyraniad cyffredinol o fewn y gronfa galedi.

Nid yw hyn yn golygu mai dim ond yn fisol am y cyfnod sy'n cyd-fynd â'r cyfnod hawlio y gall darparwyr gael eu talu. Dylai awdurdodau lleol ystyried costau darparwyr yn sgil COVID-19 yn ystod cyfnod y gronfa galedi (h.y. o fis Mawrth i fis Mai), a darparu cyllid lle y bo'n briodol, mewn modd amserol wrth iddynt ddod yn

ymwybodol ohonynt, a pheidio ag oedi wrth ymdrin â'r rhain oherwydd amseru'r hawliadau i'r gronfa galedi.

Yn yr un modd, dylai darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion gymhwyso a meintoli'r costau ychwanegol maent yn eu hysgwyddo o ganlyniad i COVID-19 gyda'u hawdurdodau lleol sy'n comisiynu cyn gynted â phosibl, gan wneud awdurdodau yn ymwybodol o unrhyw gyllid ychwanegol y maent hefyd yn ei dderbyn gan awdurdodau eraill yng Nghymru a allai hefyd fod yn comisiynu eu gofal. Dylai awdurdodau lleol fod yn cynnal trafodaethau cynnar gyda'r darparwyr a gomisiynwyd am y problemau ariannol maent yn eu hwynebu o ganlyniad i COVID-19.

Monitro

Caiff y defnydd a wneir o'r cyllid hwn ei fonitro drwy gronfa galedi llywodraeth leol, gan fod Gweinidogion yn sylweddoli y gallai fod angen iddynt wneud dyraniadau pellach yn dibynnu ar sut y bydd y pandemig yn datblygu, a'i effaith ariannol ar ddarparwyr. Bydd awdurdodau lleol yn derbyn taenlen hawlio ddiwygiedig ar gyfer y cyllid hwn, a fydd yn cynnwys hyn.

Disgwyliadau Gweinidogion

Gan ystyried y pwysau ariannol y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn ei wynebu o ganlyniad i COVID-19, nawr bod manylion y cyllid hwn wedi cael eu cadarnhau, mae Gweinidogion yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn darparu cymorth ariannol priodol ar gyfer y costau a ddisgrifir uchod i ddarparwyr ar y rheng flaen, a hynny'n ddi-oed.

Yn gywir

Matt Jenkins

Deputy Director (Partnership and Cooperation) | Dirprwy Gyfarwyddwr (Partneriaeth a Chydweithrediad)

Social Services and Integration Directorate | Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Welsh Government – Health and Social Service Group | Llywodraeth Cymru – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Tel / Ffôn: 03000 251618